OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 65 (Cy. 10)

# TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

## Rheoliadau Swyddi Barnwrol (Eistedd mewn Ymddeoliad – Swyddi Rhagnodedig a'u Disgrifiadau) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Ionawr 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *25 Ionawr 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *17 Chwefror 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 124(3) a 4(e) a 129(1)(b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Swyddi Barnwrol (Eistedd mewn Ymddeoliad – Swyddi Rhagnodedig a'u Disgrifiadau) (Cymru) 2023 a deuant i rym ar 17 Chwefror 2023.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 17.2.2023, gweler **rhl. 1**

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith o Banel Dyfarnu Cymru" ("*legally qualified member of the Adjudication Panel for Wales*") yw person ("P") a oedd pan y'i penodwyd i swydd ragnodedig yn bodloni'r disgrifiad a ganlyn—

(a) roedd P yn bodloni'r amod o ran cymhwysedd ar gyfer penodiad barnwrol ar sail pum mlynedd;

(b) roedd P yn eiriolwr neu'n gyfreithiwr yn yr Alban a chanddo bum mlynedd o wasanaeth;

(c) roedd P yn aelod o Far Gogledd Iwerddon; neu

(d) roedd gan P brofiad cyfreithiol a oedd yn addas ym marn Gweinidogion Cymru.

(**1**) 2022 p. 7.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 17.2.2023, gweler **rhl. 1**

**Swyddi a ragnodir mewn perthynas â phenodiad i swydd eistedd mewn ymddeoliad**

**3.** Mae person sy'n dal neu sydd wedi dal swydd a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen ("swyddi rhagnodedig") yn gymwys i'w benodi i'r swydd eistedd mewn ymddeoliad a restrir yn rhes gyfatebol colofn 1.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 17.2.2023, gweler **rhl. 1**

*Mark Drakeford*
23 Ionawr 2023 — Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Rwyf yn cydsynio

*Wyn Williams*
19 Ionawr 2023 — Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

## YR ATODLEN

Rheoliad 3

### Swyddi Eistedd mewn Ymddeoliad Swyddi Barnwrol a Restrir yn Rhan 5 o Atodlen 3 i'r Ddeddf a Swyddi Rhagnodedig Cyfatebol

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. mewn grym ar 17.2.2023, gweler **rhl. 1**

**Tabl**

| *Colofn 1:*<br><br>*Swydd eistedd mewn ymddeoliad* | *Colofn 2:*<br><br>*Swyddi rhagnodedig* |
|---|---|
| 1. Dirprwy Gadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (eistedd mewn ymddeoliad) | Cadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru<br><br>Dirprwy Gadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru |
| 2. Aelod cyfreithiol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (eistedd mewn ymddeoliad) | Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru<br><br>Aelod cyfreithiol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru |
| 3. Aelod cyfreithiol o Bwyllgor Asesu Rhenti Cymru (eistedd mewn ymddeoliad) | Llywydd Pwyllgor Asesu Rhenti Cymru<br><br>Is-lywydd Pwyllgor Asesu Rhenti Cymru<br><br>Aelod o'r panel o bersonau a benodwyd i weithredu fel cadeirydd Pwyllgor Asesu Rhenti Cymru |
| 4. Aelod cyfreithiol o Dribiwnlys y Gymraeg (eistedd mewn ymddeoliad) | Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg<br><br>Aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith o Dribiwnlys y Gymraeg |
| 5. Aelod o Banel Dyfarnu Cymru (eistedd mewn ymddeoliad) | Llywydd Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Dirprwy Lywydd Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith o Banel Dyfarnu Cymru |
| 6. Aelod o banel cadeirydd cyfreithiol Tribiwnlys Addysg Cymru (eistedd mewn ymddeoliad) | Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru<br><br>Dirprwy Lywydd Tribiwnlys Addysg Cymru<br><br>Aelod o banel cadeirydd cyfreithiol Tribiwnlys Addysg Cymru |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 124(3) a (4)(e) a 129(1)(b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 er mwyn rhagnodi swyddi a ddelir gan bersonau sy'n gymwys i'w penodi i swydd eistedd mewn ymddeoliad. Dim ond i swyddi eistedd mewn ymddeoliad pan mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw'r awdurdod penodi y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys.

Mae'r Tabl yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn rhestru'r swyddi barnwrol rhagnodedig y mae rhaid i berson eu dal neu fod wedi eu dal cyn ymddeol er mwyn ei benodi i'r swydd eistedd mewn ymddeoliad gyfatebol.

Ystyriwyd cod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Swyddi Barnwrol (Eistedd mewn Ymddeoliad – Swyddi Rhagnodedig a'u Disgrifiadau) (Cymru) 2023.